



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 2982 (Cy.273)

2006 No. 2982 (W.273)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2006

The Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2006

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn dirymu Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd 1998 fel y'i newidiwyd ("Rheoliadau 1998") i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, ac yn ail-ddeddfu darpariaethau penodol a geir yn Rheoliadau hynny, neu'n eu hail ddeddfu gyda newidiadau. Rhestrir y prif Gyfarwyddebau sy'n parhau i gael eu gweithredu gan y Rheoliadau hyn ym mharagraff 5 isod. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi a gweithredu Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1895/2005 ar gyfyngu'r defnydd o ddeilliannau epoksi penodol mewn deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ("Rheoliad 1895/2005").

1. These Regulations, which apply in relation to Wales, revoke the Plastic Materials and Articles in Contact with Food Regulations 1998 as amended ("the 1998 Regulations") in so far as they apply in relation to Wales, and re-enact or re-enact with changes certain provisions contained in those Regulations. The principal Directives that continue to be implemented by these Regulations are listed in paragraph 5 below. These Regulations also provide for the execution and enforcement of Commission Regulation (EC) No 1895/2005 on the restriction of use of certain epoxy derivatives in materials and articles intended to come into contact with food ("Regulation 1895/2005").

2. Mae'r Rheoliadau yn Rhan 2 -

2. The Regulations in Part 2 -

- (a) yn gwahardd gweithgareddau penodedig mewn perthynas ag unrhyw deunydd neu eitem (fel y'i diffinnir yn rheoliad 2) sy'n methu â bodloni'r safonau gofynnol priodol a osodir yn y Rheoliadau (rheoliad 3);
- (b) yn gwahardd defnyddio monomerau ac ychwanegion wrth weithgynhyrchu deunyddiau ac eitemau ac eithrio yn unol ag amodau penodedig (rheoliad 4 ac Atodlen 1 yn achos monomerau a rheoliad 5 ac Atodlen 1 yn achos ychwanegion);
- (c) yn pennu'r safonau gofynnol sy'n ymwneud â galluogrwydd monomer neu ychwanegyn i gyflwyno ei gyfansoddion i fwyd (rheoliad 6 ar gyfer monomerau a rheoliad 7 ar gyfer ychwanegion);

- (a) prohibit specified activities in relation to any plastic material or article (as defined in regulation 2) which fails to meet the appropriate required standards set out in the Regulations (regulation 3);
- (b) prohibit the use of monomers and additives in the manufacture of plastic materials and articles other than in accordance with specified conditions (regulation 4 and Schedule 1 in the case of monomers and regulation 5 and Schedule 1 in the case of additives);
- (c) specify the required standards relating to the capability of a monomer or an additive to confer its constituents to food (regulation 6 for monomers and regulation 7 for additives);

- (ch) yn pennu'r safon ofynnol ynglŷn â chynhyrchion a geir drwy eplesu bacterol (rheoliad 8);
- (d) yn pennu'r safon ofynnol ynglŷn â therfynau ymfudiad cyflawn allan o ddeunyddiau neu eitemau plastig i mewn i fwyd (rheoliad 9);
- (dd) yn pennu'r safon ofynnol ynglŷn ag ymfudiad aminau aromatig sylfaenol o ddeunyddiau neu eitemau plastig i fwyd (rheoliad 10);
- (e) yn pennu'r dulliau o benderfynu ar allu deunydd neu eitem plastig i drosglwyddo ei gyfansoddion i fwyd, ac i ganfod presenoldeb unrhyw gyfansoddion o'r fath mewn bwyd (rheoliad 11 ac Atodlenni 2 a 3);
- (f) yn darparu bod rhaid, cyn y cam manwerthu, i wybodaeth ysgrifenedig benodol, gan gynnwys datganiad o gydymffurfiad deddfwriaethol, fynd gyda deunyddiau ac eitemau plastig (rheoliad 12);
- (ff) darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad 1895/2005 ar gyfyngu ar ddefnyddio deilliadau epocsi penodol mewn deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd (OJ Rhif L302, 19.11.2005, t.28), sy'n cynnwys darpariaethau Cymunedol ynglŷn â'r deilliadau epocsi a elwir BADGE, BFDGE a NOGE (rheoliad 13).

3. Mae'r Rheoliadau yn Rhan 3 -

- (a) yn dynodi awdurdodau bwyd ac awdurdodau iechyd porthladd fel yr awdurdodau gorfodi yn eu hardaloedd neu eu rhanbarthau yn eu trefn (rheoliad 14);
- (b) yn pennu'r tramgwyddau y gellir eu cyflawni o dan y Rheoliadau hyn ac yn gosod uchafswm y cosbau ar gollfarn (rheoliad 15);
- (c) yn darparu amddiffyniadau cyffredinol eu natur, megis arfer diwydrwydd dyladwy, i dramgwyddau o dan reoliad 15 (rheoliad 16);
- (ch) yn darparu amddiffyniad trosiannol o ran gwerthu jariau sy'n cynnwys bwydydd babanod a phlant bach ac sydd â gasged PVC wedi'i selio sy'n cynnwys olew ffa soia wedi'i epoxideiddio (rheoliad 17);
- (d) yn darparu amddiffyniadau trosiannol o ran deunyddiau neu eitemau plastig sydd eisoes wedi cael eu gweithgynhyrchu neu eu cylchredeg cyn bod newid yn y gyfraith a fyddai fel arall wedi gwneud eu gweithgynhyrchu neu eu cylchredeg yn anghyfreithlon (rheoliad 18);
- (d) specify the required standard for products obtained by bacterial fermentation (regulation 8);
- (e) specify the required standard relating to overall migration limits from plastic materials or articles to food (regulation 9);
- (f) specify the required standards relating to the migration of primary aromatic amines from plastic materials or articles to food (regulation 10);
- (g) specify the methods for determining the capability of a plastic material or article to transfer its constituents to food, and for detecting the presence of any such constituents in food (regulation 11 and Schedules 2 and 3);
- (h) provide that prior to the retail stage plastic materials and articles must be accompanied by certain specified written information, including a declaration of legislative compliance (regulation 12);
- (i) provide for the enforcement of Regulation 1895/2005 on the restriction of use of certain epoxy derivatives in materials and articles intended to come into contact with food (OJ No. L302, 19.11.2005, p.28), which contains Community provisions relating to the epoxy derivatives known as BADGE, BFDGE and NOGE (regulation 13).

3. The Regulations in Part 3 -

- (a) designate food authorities and port health authorities as the enforcement authorities in their respective areas or districts (regulation 14);
- (b) specify the offences that may be committed under these Regulations and set out the maximum penalties on conviction (regulation 15);
- (c) provide for defences of a general nature, such as exercise of due diligence etc, to offences under regulation 15 (regulation 16);
- (d) provide for a transitional defence relating to the sale of jars in foods for infants and young children sealed PVC gaskets containing epoxidised soybean oil; (regulation 17);
- (e) provide for transitional defences in relation to certain plastic materials or articles that have already been manufactured or put into circulation in advance of a change in the law that would otherwise have made their manufacture or circulation unlawful (regulation 18);

(dd) yn pennu'r weithdrefn sydd i'w dilyn pan anfonir sampl i gael ei dadansoddi (rheoliad 19);

(e) yn darparu ar gyfer cael dadansoddi sampl gyfeiriadol gan Labordy Fferyllydd y Llywodraeth (rheoliad 20);

4. Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn a'r terfyn amser y mae'n rhaid cadw ato pan fo person yn dymuno gwneud cais i Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop am awdurdodiad i ychwanegyn newydd (rheoliad 21).

5. Y prif Gyfarwydebau a weithredwyd gan Reoliadau 1998 sy'n parhau i gael eu gweithredu gan y Rheoliadau hyn yw -

(a) Cyfarwydeb y Cyngor 82/711/EEC (OJ Rhif L297, 23.10.1982, t.26) sy'n gosod y rheolau sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer profi ymfudiad cyfansoddion deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwydebau'r Comisiwn 93/8/EEC (OJ Rhif L90, 14.4.1993, t.22) a 97/48/EC (OJ Rhif L222, 12.8.1997, t.10);

(b) Cyfarwydeb y Cyngor 85/572/EEC sy'n gosod y rhestr o efelychwyr sydd i'w defnyddio ar gyfer profi ymfudiad cyfansoddion deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd (OJ Rhif. L372, 31.12.1985, t.14);

(c) Cyfarwydeb y Comisiwn 2002/72/EC (OJ Rhif L220, 15.8.2002, t.18) ynglŷn â deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwydebau'r Comisiwn 2004/1/EC (OJ Rhif L7, 13.1.2004, t.45) a 2004/19/EC (OJ Rhif L71, 10.3.2004, t.8).

6. Cafodd arfarniad rheoliadol llawn ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn ac fe'i gosodwyd yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â chopi o'r nodyn trosi sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11 Southgate House, Caerdydd CF10 1EW.

(f) specify the procedure to be followed when sending a sample for analysis (regulation 19);

(g) make provision for a reference sample to be analysed by the Laboratory for the Government Chemist (regulation 20);

4. Part 4 of the Regulations contains provisions relating to the procedure to be followed and the time limit to be observed where a person wishes apply to the European Food Safety Authority for the authorisation of a new additive (regulation 21).

5. The principal Directives implemented by the 1998 Regulations which these Regulations continue to implement are -

(a) Council Directive 82/711/EEC (OJ No. L297, 23,10,1982, p.26) laying down the basic rules necessary for testing migration of the constituents of plastic materials and articles intended to come into contact with foodstuffs, as amended by Commission Directives 93/8/EEC (OJ No. L90, 14.4.1993, p.22) and 97/48/EC (OJ No. L222, 12.8.1997, p.10);

(b) Council Directive 85/572/EEC laying down the list of simulants to be used for testing migration of constituents of plastic materials and articles intended to come into contact with foodstuffs (OJ No. L372, 31.12.1985, p.14);

(c) Commission Directive 2002/72/EC (OJ No. L220, 15.8.2002, p.18) relating to plastic materials and articles intended to come into contact with foodstuffs, as amended by Commission Directives 2004/1/EC (OJ No. L7, 13.1.2004, p.45) and 2004/19/EC (OJ No. L71, 10.3.2004, p.8).

6. A full regulatory appraisal has been prepared for these Regulations and has been placed in the Library of the National Assembly for Wales along with a copy of the transposition note relating to these Regulations. Copies are also available from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Cardiff CF10 1EW.

2006 Rhif 2982 (Cy.273)

2006 No. 2982 (W.273)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Deunyddiau ac
Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â
Bwyd (Cymru) 2006**

**The Plastic Materials and Articles
in Contact with Food (Wales)
Regulations 2006**

Wedi'u gwneud 14 Tachwedd 2006

Made 14 November 2006

Yn dod i rym 19 Tachwedd 2006

Coming into force 19 November 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(2), 17(1) a (2), 26(1)(a) a (3), 31 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1), ac a freiniwyd bellach ynddo ef(2).

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 16(2), 17(1) and (2), 26(1)(a) and (3), 31 and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1), and now vested in it(2).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, mae wedi rhoi ystyriaeth i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

In accordance with section 48(4A) of that Act it has had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

Fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(3), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

(1) 1990 p.16.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(3) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).

(1) 1990 c.16.

(2) Functions of the Secretary of State under the Food Safety Act 1990, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(3) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Regulation (EC) No. 1642/2003 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L245, 29.9.2003, p.4).

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2006, ac maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 19 Tachwedd 2006.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "ansawdd technegol da" ("*good technical quality*") yw ansawdd technegol da o ran y meini prawf purdeb;

ystyr "awdurdod gorfodi" ("*enforcement authority*") yw awdurdod sydd â'r cyfrifoldeb o dan reoliad 14 dros weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn;

mae i "BADGE" ("*BADGE*") yr ystyr a roddir iddo yn Erthygl 1(1)(a) o Reoliad 1895/2005;

mae i "BFDGE" ("*BFDGE*") yr ystyr a roddir iddo yn Erthygl 1(1)(b) o Reoliad 1895/2005;

mae "busnes" ("*business*") i'w ddehongli yn unol ag adran 1(3) o'r Ddeddf;

mae "bwyd" ("*food*") i'w ddehongli yn unol ag adran 16(5) o'r Ddeddf;

ystyr "Cyfarwyddeb 82/711" ("*Directive 82/711*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 82/711/EEC(1) sy'n gosod y rheolau sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer profi ymfudiad cyfansoddion deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 97/48/EC(2);

ystyr "Cyfarwyddeb 85/572" ("*Council Directive 85/572*") Cyfarwyddeb y Cyngor 85/572/EEC sy'n gosod y rhestr o efelychwyr sydd i'w defnyddio ar gyfer profi ymfudiad cyfansoddion deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd(3);

ystyr "Cyfarwyddeb 88/388" ("*Directive 88/388*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 88/388/EEC ar gyd-dynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â chyflwynnau i'w defnyddio mewn bwydydd ac â deunyddiau crai ar gyfer eu cynhyrchu(4);

(1) OJ Rhif L297, 23.10.1982, t.26.

(2) OJ Rhif L222, 12.8.1997, t.10.

(3) OJ Rhif L372, 31.12.1985, t.14.

(4) OJ Rhif L184, 15.7.1988, t.61.

PART 1

Preliminary

Title, application and commencement

1. The title of these Regulations is the Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2006, they apply in relation to Wales and come into force on 19 November 2006.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990;

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*") means any person, whether or not an officer of the enforcement authority, who is authorised by it in writing to act in matters arising under these Regulations;

"BADGE" ("*BADGE*") has the meaning given in Article 1(1)(a) of Regulation 1895/2005;

"BFDGE" ("*BFDGE*") has the meaning given in Article 1(1)(b) of Regulation 1895/2005;

"business" ("*busnes*") is to be construed in accordance with section 1(3) of the Act;

"capable" ("*yn gallu*") means capable as established under regulation 11;

"Directive 82/711" ("*Cyfarwyddeb 82/711*") means Council Directive 82/711/EEC(1) laying down the basic rules necessary for testing migration of the constituents of plastic materials and articles intended to come into contact with foodstuffs, as last amended by Commission Directive 97/48/EC(2);

"Directive 85/572" ("*Cyfarwyddeb 85/572*") means Council Directive 85/572/EEC laying down the list of simulants to be used for testing migration of constituents of plastic materials and articles intended to come into contact with foodstuffs(3);

"Directive 88/388" ("*Cyfarwyddeb 88/388*") means Council Directive 88/388/EEC on the approximation of the laws of the Member States relating to flavourings for use in foodstuffs and to source materials for their production(4);

"Directive 89/107" ("*Cyfarwyddeb 89/107*") means

(1) OJ No. L297, 23.10.1982, p.26.

(2) OJ No. L222, 12.8.1997, p.10.

(3) OJ No. L372, 31.12.1985, p.14.

(4) OJ No. L184, 15.7.1988, p.61.

ystyr "Cyfarwyddeb 89/107" ("*Directive 89/107*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 89/107/EEC ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud ag ychwanegion yr awdurdodir eu defnyddio mewn bwydydd a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl(1);

ystyr "y Cyfarwyddebau Purdeb" ("*the Purity Directives*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 95/31/EC sy'n gosod meini prawf penodol mewn purdeb ar gyfer melysyddion i'w defnyddio mewn bwydydd(2), Cyfarwyddeb y Comisiwn 95/45/EC sy'n gosod meini prawf penodol mewn purdeb ar gyfer lliwiau i'w defnyddio mewn bwydydd(3) a Chyfarwyddeb y Comisiwn 96/77/EC sy'n gosod meini prawf penodol mewn purdeb ar gyfer ychwanegion bwyd ac eithrio lliwiau neu felysyddion(4);

ystyr "deunydd neu eitem" ("*material or article*") yw deunydd neu eitem sy'n cwmpo o fewn y diffiniad o deunyddiau ac eitemau yn Erthygl 1(2) o Reoliad 1895/2005;

ystyr "deunydd neu eitem plastig" ("*plastic material or article*") yw unrhyw beth a gynhwysir at ddibenion y Gyfarwyddeb ymhlith y deunyddiau a'r eitemau plastig hynny a rhannau ohonynt y mae'r Gyfarwyddeb yn gymwys iddynt;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "EFSA" ("*EFSA*") yw Awdurdod Diogelu Bwyd Ewrop;

ystyr "yn gallu" ("*capable*") yw bod yn gallu yn ôl yr hyn a sefydlir o dan reoliad 11;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys cynnig neu ddangos rhywbeth i'w werthu neu fod yn meddiannu peth i'w werthu, a rhaid dehongli "gwerthiant" ("*sale*") yn unol â hynny;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw Aelod-wladwriaeth (ac eithrio'r Deyrnas Unedig), Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein;

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/72/EC(5) ynglŷn â deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn

Council Directive 89/107/EEC on the approximation of the laws of the Member States concerning food additives authorised in foodstuffs intended for human consumption(1);

"the Directive" ("*y Gyfarwyddeb*") means Commission Directive 2002/72/EC(2) relating to plastic materials and articles intended to come into contact with foodstuffs, as last amended by Commission Directive 2004/19/EC(3) and Commission Directive 2005/79/EC(4);

"EEA State" ("*Gwladwriaeth AEE*") means a member State (other than the United Kingdom), Norway, Iceland and Liechtenstein;

"EFSA" ("*EFSA*") means the European Food Safety Authority;

"enforcement authority" ("*awdurdod gorfodi*") means an authority having responsibility under regulation 14 for executing and enforcing these Regulations;

"food" ("*bwyd*") is to be construed in accordance with section 16(5) of the Act;

"good technical quality" ("*ansawdd technegol da*") means good technical quality as regards the purity criteria;

"handling of food" ("*trin bwyd*") means use in connection with the storage, preparation, packaging, sale or serving of food;

"import" ("*mewnforio*") means import in the course of a business;

"material or article" ("*deunydd neu eitem*") means a material or article falling within the definition of materials and articles in Article 1(2) of Regulation 1895/2005;

"monomer" ("*monomer*") means any substance that is included for the purposes of the Directive among monomers and other starting substances;

"NOGE" ("*NOGE*") has the meaning given in Article 1(1)(c) of Regulation 1895/2005;

"the 1998 Regulations" ("*Rheoliadau 1998*") means the Plastic Materials and Articles in Contact with Food Regulations 1998(5);

(1) OJ Rhif L40, 11.2.1989, t.27.

(2) OJ Rhif L178, 28.7.97, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/46, (OJ Rhif L114, 21.4.2004, t.15.

(3) OJ Rhif L226, 22.9.95, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/47, (OJ Rhif L113, 20.4.2004, t.24).

(4) OJ Rhif L339, 30.12.96, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2003/95, (OJ Rhif L283, 31.10.2003, t.71).

(5) OJ Rhif L220, 15.8.2002, t.18.

(1) OJ No. L40, 11.2.1989, p.27.

(2) OJ No. L220, 15.8.2002, p.18.

(3) OJ No. L71, 10.3.2004, p.8.

(4) OJ No. L302, 19.11.2005, p.35.

(5) S.I. 1998/1376, as amended in relation to Wales by S.I. 2001/1236 (W.70), S.I. 2002/2834 (W.272) S.I. 2003/302 (W.44), S.I. 2005/182 (W.15) and S.I. 2005/1649 (W.130).

2004/19/EC(1) a Chyfarwyddeb y Comisiwn 2005/79/EC(2);

ystyr "mewnforio" ("*import*") yw mewnfario wrth gynnal busnes;

ystyr "monomer" ("*monomer*") yw unrhyw sylwedd a gynhwysir at ddibenion y Gyfarwyddeb ymhlith monomerau a sylweddau cychwynnol eraill;

mae i "NOGE" ("*NOGE*") yr ystyr a roddir iddo yn Erthygl 1(1)(c) o Reoliad 1895/2005;

ystyr "Rheoliad 1895/2005" ("*Regulation 1895/2005*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1895/2005 ar gyfyngu ar ddefnyddio deilliadau epocsi penodol mewn ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd(3);

ystyr "Rheoliadau 1998" ("*the 1998 Regulations*") yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd 1998(4);

ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd 2005(5);

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*"), yw unrhyw berson boed yn swyddog i'r awdurdod gorfodi neu beidio, sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod hwnnw i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn;

ystyr "trin bwyd" ("*handling of food*") yw defnyddio mewn cysylltiad â storio, paratoi, pecynnu, deunydd pacio, gwerthu neu weini bwyd;

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn bernir bod cyflenwi unrhyw ddeunydd neu eitem ac eithrio drwy werthiant, wrth gynnal busnes, yn werthiant.

(3) Mae i unrhyw ymadrodd arall a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn y Gyfarwyddeb, Cyfarwyddeb 82/711, Cyfarwyddeb 85/572 neu Reoliad 1895/2005 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddo yn y Gyfarwyddeb honno neu'r Rheoliad hwnnw.

(4) Ac eithrio yn Rhan 5 o Atodlen 3, mae unrhyw gyfeiriad at Atodiad â rhif yn gyfeiriad at yr Atodiad hwnnw yn y Gyfarwyddeb.

"the 2005 Regulations" ("*Rheoliadau 2005*") means the Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2005(1);

"plastic material or article" ("*deunydd neu eitem plastig*") means anything which for the purposes of the Directive is included among those plastic materials and articles and parts thereof to which the Directive applies;

"the Purity Directives" ("*y Cyfarwyddebau Purdeb*") means Commission Directive 95/31/EC laying down specific criteria of purity concerning sweeteners for use in foodstuffs(2), Commission Directive 95/45/EC laying down purity criteria concerning colours for use in foodstuffs(3) and Commission Directive 96/77/EC laying down specific purity criteria for food additives other than colours or sweeteners(4);

"Regulation 1895/2005" ("*Rheoliad 1895/2005*") means Commission Regulation (EC) No 1895/2005 on the restriction of use of certain epoxy derivatives in materials and articles intended to come into contact with food(5);

"sell" ("*gwerthu*") includes offer or expose for sale or have in possession for sale, and "sale" ("*gwerthiant*") is construed accordingly;

(2) For the purposes of these Regulations the supply otherwise than on sale, in the course of a business, of any material or article is deemed to be a sale.

(3) Any other expression used in these Regulations and in the Directive, Directive 82/711, Directive 85/572 or Regulation 1895/2005 bears the same meaning in these Regulations as it bears in that Directive or Regulation.

(4) Except in Part 5 of Schedule 3, any reference to a numbered Annex is a reference to that Annex to the Directive.

(1) OJ Rhif L71, 10.3.2004, t.8.

(2) OJ Rhif L302, 19.11.2005, t.35.

(3) OJ Rhif L302, 19.11.2005, t.28.

(4) O.S. 1998/1376, fel y'i diwygiwyd o ran Cymru gan O.S. 2001/1236 (Cy.70), O.S. 2002/2834 (Cy.272) O.S. 2003/302 (Cy.44), O.S. 2005/182 (Cy.15) ac O.S. 2005/1649 (Cy.130).

(5) O.S. 2005/1647 (Cy.128).

(1) S.I. 2005/1647 (W.128).

(2) OJ No. L178, 28.7.97, p.1, as last amended by Commission Directive 2004/46, OJ No. L114, 21.4.2004, p.15.

(3) OJ No. L226, 22.9.95, p.1, as last amended by Commission Directive 2004/47, OJ No. L113, 20.4.2004, p.24.

(4) OJ No. L339, 30.12.96, p.1, as last amended by Commission Directive 2003/95, OJ No. L283, 31.10.2003, p.71.

(5) OJ No. L302, 19.11.2005, p.28.

RHAN 2

Gofynion ar gyfer Deunyddiau ac Eitemau

Cyfyngu ar ddefnyddio, gwerthu neu fewnforio deunyddiau ac eitemau plastig

3.-(1) Ni chaiff neb -

- (a) defnyddio ar gyfer trin bwyd wrth gynnal busnes;
- (b) gwerthu at ddibenion trin bwyd; neu
- (c) mewnforio o unrhyw fan ac eithrio Gwladwriaeth AEE at ddibenion trin bwyd,

ddeunydd neu eitem plastig sy'n methu â bodloni'r safon ofynnol.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn mae deunydd neu eitem plastig yn methu â bodloni'r safon ofynnol-

- (a) os cafodd ei weithgynhyrchu gyda monomer gwaharddedig fel a ddisgrifir yn rheoliad 4(2) neu ychwanegyn gwaharddedig fel a ddisgrifir yn rheoliad 5(2); neu
- (b) os nad yw'n bodloni'r safonau gofynnol a osodir yn rheoliad 6, 7, 8, 9 neu 10.

Cyfyngu ar ddefnyddio monomerau wrth weithgynhyrchu deunyddiau ac eitemau plastig

4.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3), (4) a (5), ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw fonomer gwaharddedig wrth weithgynhyrchu unrhyw deunydd neu eitem.

(2) Monomer gwaharddedig yw unrhyw fonomer -

- (a) nad yw o ansawdd technegol da;
- (b) nad yw wedi ei ddynodi gan Rif PM/REF, Rhif CAS (os oes un) ac enw yng ngholofnau 1, 2 a 3 yn eu trefn o Adrannau A neu B o Atodiad II; ac
- (c) nas defnyddir yn unol ag unrhyw gyfyngiadau a manylebion ar gyfer y monomer hwnnw a osodir neu y cyfeirir ato yng ngholofn 4 o'r adrannau hynny.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i ddefnyddio monomer wrth weithgynhyrchu unrhyw -

- (a) caenenni arwyneb a geir o gynhyrchion resinaidd neu o gynhyrchion a bolymereiddwyd mewn ffurf hylifol, powdrog neu wasgaredig, gan gynnwys farneisiau, lacrau a phaentiau, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt;
- (b) resinau epocsi;
- (c) adlynyon a hyrwyddwyr adlyniad; neu
- (ch) inciau argraffu.

PART 2

Requirements for Materials and Articles

Restriction on the use, sale or import of plastic materials and articles

3.-(1) No person may -

- (a) use for the handling of food in the course of a business;
- (b) sell for the purpose of handling of food; or
- (c) import from anywhere other than an EEA State for the purpose of handling of food,

a plastic material or article which fails to meet the required standard.

(2) For the purposes of this regulation a plastic material or article fails to meet the required standard if -

- (a) it has been manufactured with a prohibited monomer as described in regulation 4(2) or a prohibited additive as described in regulation 5(2); or
- (b) it does not meet the required standards set out in regulation 6, 7, 8, 9 or 10.

Restriction on the use of monomers in the manufacture of plastic materials and articles

4.-(1) Subject to paragraphs (3), (4) and (5), no person may use any prohibited monomer in the manufacture of any plastic material or article.

(2) A prohibited monomer is any monomer which is not -

- (a) of good technical quality;
- (b) identified by PM/REF No., CAS No. (if any) and name in columns 1, 2 and 3 respectively of Sections A or B of Annex II; and
- (c) used in accordance with any restrictions and specifications for that monomer set out or referred to in column 4 of those sections.

(3) Paragraph (1) does not apply to the use of a monomer in the manufacture of any -

- (a) surface coatings obtained from resinous or polymerised products in liquid, powder or dispersion form, including but not limited to varnishes, lacquers and paints;
- (b) epoxy resins;
- (c) adhesives and adhesion promoters; or
- (d) printing inks.

(4) Rhaid peidio â chymryd bod paragraff (1) yn gwahardd gweithgynhyrchu unrhyw ddeunydd neu eitem plastig gydag unrhyw sylwedd, os yw'r sylwedd dan sylw yn gymysgedd sy'n cwmpo o fewn paragraff 3(c) (sy'n ymwneud â chymysgeddau o sylweddau a awdurdodir) o Atodiad II a'i fod o ansawdd technegol da.

(5) Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dan y rheoliadau hyn pan honnir nad yw deunydd neu unrhyw eitem plastig yn cydymffurfio â pharagraff (1) oherwydd iddo gael ei weithgynhyrchu gydag unrhyw fonomer (p'un ai o ansawdd technegol da ai peidio) ac eithrio un a grybwyllir ym mharagraff (2)(b) y mae'n amddiffyniad i'r cyhuddedig brofi bod pob monomer o'r fath-

- (a) yn bresennol yn y deunydd plastig gorffenedig fel amhuredd, fel adwaith rhyngol neu fel cynnyrch dadelfeniad sy'n cwmpo o fewn paragraff 3(a) o Atodiad II, neu
- (b) yn oligomer neu'n sylwedd macrofoleciwlar synthetig neu'n gymysgedd ohonynt sy'n cwmpo o fewn paragraff 3(b) o'r Atodiad hwnnw,

a'i fod o ansawdd technegol da.

(6) Mae Atodlen 1 yn cael ei heffaith i ychwanegu at y rheoliad hwn.

Cyfyngu ar ddefnyddio ychwanegion wrth weithgynhyrchu deunyddiau ac eitemau plastig

5.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) ni chaiff neb defnyddio unrhyw ychwanegyn gwaharddedig wrth weithgynhyrchu unrhyw ddeunydd neu eitem plastig.

(2) Ychwanegyn gwaharddedig yw -

- (a) unrhyw ychwanegyn a ddynodir â Rhif PM/REF (os oes un) ac enw yng ngholofn 1, 2 a 3 yn eu trefn o Adran A neu B o Atodiad III-
 - (i) nad yw o ansawdd technegol da, neu
 - (ii) nas defnyddir yn unol ag unrhyw gyfyngiadau a manylebion ar gyfer yr ychwanegyn hwnnw a osodir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 4 o Adran A neu B o'r Atodiad hwnnw; neu
- (b) unrhyw ychwanegyn bwyd a awdurdodir gan Gyfarwyddeb 89/107 neu unrhyw gyflasyn a awdurdodir gan Gyfarwyddeb 88/388 sy'n ymfudo i fwyd -
 - (i) mewn swmp y mae iddo swyddogaeth dechnolegol yn y cynnyrch bwyd terfynol, neu
 - (ii) pan fo'r bwyd o fath ag y mae defnyddio ychwanegyn neu gyflasyn bwyd o'r fath ynddo yn y modd hwnnw wedi ei awdurdodi, mewn sympiaau sy'n mynd dros ben y terfynau a osodir yng

(4) Paragraph (1) must not be taken to prohibit the manufacture of any plastic material or article with any substance if the substance in question is a mixture which falls within paragraph 3(c) (relating to mixtures of authorised substances) of Annex II and is of good technical quality.

(5) In any proceedings for an offence under these Regulations where it is alleged that a plastic material or article does not comply with paragraph (1) because it was manufactured with any monomer (whether or not of good technical quality) other than one mentioned in paragraph (2)(b) it is a defence for the person accused to prove that each such monomer -

- (a) is present in the finished plastic material as an impurity, a reaction intermediate or a decomposition product which falls within paragraph 3(a) of Annex II, or
- (b) is an oligomer or a natural or synthetic macromolecular substance or a mixture thereof which falls within paragraph 3(b) of that Annex,

and is of good technical quality.

(6) Schedule 1 has effect to supplement this regulation.

Restriction on the use of additives in the manufacture of plastic materials and articles

5.-(1) Subject to paragraph (3) no person may use in the manufacture of any plastic material or article any prohibited additive.

(2) A prohibited additive is -

- (a) any additive identified by PM/REF No., CAS No. (if any) and name in columns 1, 2 and 3 respectively of Section A or B of Annex III which -
 - (i) is not of good technical quality, or
 - (ii) is not used in accordance with any restrictions and specifications for that additive set out in the corresponding entry in column 4 of Section A or B of that Annex; or
- (b) any food additive authorised by Directive 89/107 or any flavouring authorised by Directive 88/388 that migrates into food -
 - (i) in a quantity that has a technological function in the final food product, or
 - (ii) where the food is of a type for which the use of any such food additive or flavouring is so authorised, in quantities exceeding the limits provided for in Directive 89/107 or Directive 88/388 as appropriate, or in

Nghyfarwyddeb 89/107 neu yng Nghyfarwyddeb 88/388 yn ôl y priodoldeb, neu yn Atodiad III, pa un bynnag sydd isaf.

(3) Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn pan honnir bod tramgwydd wedi ei gyflawni oherwydd gweithgynhyrchu deunydd neu eitem plastig gydag unrhyw ychwanegyn a ddynodir yn Adran A neu B o Atodiad III nad yw o ansawdd technegol da, mae'n amddiffyniad i'r cyhuddedig brofi bod pob ychwanegyn o'r fath yn bresennol yn y deunydd plastig gorffenedig fel amhuredd, fel adwaith rhyngol neu fel cynnyrch dadelfeniad.

(4) Mae Atodlen 1 yn cael ei heffaith i ychwanegu at y rheoliad hwn.

Y safon ofynnol i sicrhau nad oes ymfudiad cyfansoddion monomerau

6.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fo terfyn ymfudiad a fynegir mewn mg/kg wedi ei ddangos yng ngholofn 4 o'r adran berthnasol o Adran neu B o Atodiad II o ran unrhyw fonomer, mae unrhyw ddeunydd neu eitem plastig a weithgynhyrchwyd o'r monomer hwnnw yn bodloni'r safon ofynnol o dan y rheoliad hwn os nad yw'n gallu trosglwyddo cyfansoddion y monomer hwnnw i fwyd y gall y deunydd neu'r eitem plastig ddod i gysylltiad ag ef mewn sympiau sy'n mynd dros ben y terfyn priodol, ac at ddibenion y paragraff hwn y terfyn priodol yw -

- (a) nifer y miligramau a fynegir yng ngholofn 4 a ryddheir ymhob cilogram o fwyd yn achos unrhyw deunydd neu eitem plastig ac eithrio un a bennir yn is-baragraff (b); a
- (b) y chweched ran o nifer y miligramau a fynegir yng ngholofn 4 ym mhob decimedr sgwâr o arwynebedd y deunydd neu'r eitem plastig os yw'r deunydd neu'r eitem plastig yn cynnwys-
 - (i) eitem sydd yn gynhwysydd neu sy'n gyffelybadwy â chynhwysydd neu y gellir ei lenwi, gyda chynhwysedd o lai na 500 o fililitrau neu fwy na 10 o litrau, neu
 - (ii) dalen, ffilm neu ddeunydd neu eitem plastig arall nas gellir ei lenwi neu nad yw'n ymarferol amcangyfr'i'r berthynas rhwng arwynebedd y deunydd neu'r eitem dan sylw a swmp y bwyd sydd mewn cysylltiad â'r arwynebedd hwnnw.

(2) Ni fernir bod deunydd neu eitem plastig a weithgynhyrchir o unrhyw fonomer y fynegir ar ei gyfer derfyn ymfudiad mewn mg/kg yng ngholofn 4 o Adran A neu B o Atodiad II yn gallu trosglwyddo cyfansoddion y monomer hwnnw i fwyd y gall y deunydd neu'r eitem plastig ddod i gysylltiad ag ef mewn sympiau sy'n mynd dros ben y terfyn priodol ym mharagraff (1) os mai'r unig fwyd y gall y deunydd neu'r eitem plastig hwnnw ddod i gysylltiad ag ef yw bwyd y mae rheoliad 9(3) yn gymwys iddo.

Annex III, whichever is the lower.

(3) In any proceedings for an offence under these Regulations where it is alleged that the commission of the offence is due to the manufacture of a plastic material or article with any additive identified in Section A or B of Annex III which is not of good technical quality, it is a defence for the person accused to prove that each such additive is present in the finished plastic material or article as an impurity, a reaction intermediate or a decomposition product.

(4) Schedule 1 has effect to supplement this regulation.

Required standard for non-migration of constituents of monomers

6.-(1) Subject to paragraph (2), where a migration limit expressed in mg/kg is indicated in column 4 of the relevant section of Section A or B of Annex II in relation to any monomer, a plastic material or article manufactured from that monomer meets the required standard under this regulation if it is not capable of transferring constituents of that monomer to food with which the plastic material or article may come into contact in quantities exceeding the appropriate limit, and for the purposes of this paragraph the appropriate limit is -

- (a) the number of milligrams expressed in column 4 released per kilogram of food in the case of any plastic material or article other than one specified in sub-paragraph (b); and
- (b) one sixth of the number of milligrams expressed in column 4 per square decimetre of surface area of the plastic material or article if the plastic material or article comprises -
 - (i) an article which is a container or is comparable to a container or can be filled, having a capacity of less than 500 millilitres or more than 10 litres, or
 - (ii) sheet, film or other plastic material or article which cannot be filled or for which it is impracticable to estimate the relationship between the surface area of the material or article in question and the quantity of food in contact with that surface area.

(2) A plastic material or article manufactured from any monomer for which a migration limit in mg/kg is expressed in column 4 of Section A or B of Annex II is not deemed to be capable of transferring constituents of that monomer to food with which the plastic material or article may come into contact in quantities exceeding the appropriate limit in paragraph (1) if the only food with which that plastic material or article may come into contact is food to which regulation 9(3) applies.

Y safon ofynnol i sicrhau nad oes ymfudiad cyfansoddion ychwanegion

7.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fo terfyn ymfudiad a fynegir mewn mg/kg wedi ei ddangos yng ngholofn 4 o Adran A neu B o Atodiad III o ran unrhyw ychwanegyn, mae deunydd neu eitem plastig a weithgynhyrchwyd gan gynnwys yr ychwanegyn hwnnw yn bodloni'r safon ofynnol o dan y rheoliad hwn os nad yw'n gallu trosglwyddo cyfansoddion yr ychwanegyn hwnnw i fwyd y gall y deunydd neu'r eitem plastig ddod i gysylltiad ag ef mewn sympiau sy'n mynd dros ben y terfyn priodol, ac at ddibenion y paragraff hwn y terfyn priodol yw -

- (a) nifer y miligramau a ddangosir yng ngholofn 4 a ryddheir ymhob cilogram o fwyd yn achos unrhyw ddeunydd neu eitem plastig ac eithrio un a bennir yn is-baragraff (b); a
- (b) y chweched ran o nifer y miligramau a fynegir yng ngholofn 4 ym mhob decimedr sgwâr o arwynebedd y deunydd neu'r eitem plastig os yw'r deunydd neu'r eitem plastig yn cynnwys-
 - (i) eitem sydd yn gynhwysydd neu sy'n gyffelybadwy â chynhwysydd neu y gellir ei lenwi, gyda chynhwysedd o lai na 500 o fililitrau neu fwy na 10 o litrau, neu
 - (ii) dalen, ffilm neu ddeunydd neu eitem plastig arall nas gellir ei lenwi neu nad yw'n ymarferol amcangyfr'i'r berthynas rhwng arwynebedd y deunydd neu'r eitem dan sylw a swmp y bwyd sydd mewn cysylltiad â'r arwynebedd hwnnw.

(2) Ni fernir bod deunydd neu eitem a weithgynhyrchir gan gynnwys ychwanegyn y mynegir ar ei gyfer derfyn ymfudiad mewn mg/kg yng ngholofn 4 o Ran 1 neu Ran 2 o Atodlen 2 yn gallu trosglwyddo cyfansoddion yr ychwanegyn hwnnw i fwyd y gall y deunydd neu'r eitem plastig ddod i gysylltiad ag ef mewn sympiau sy'n mynd dros ben y terfyn priodol ym mharagraff (1) os mai'r unig fwyd y gall y deunydd neu'r eitem plastig hwnnw ddod i gysylltiad ag ef yw bwyd y mae rheoliad 9(3) yn gymwys iddo.

Y safon ofynnol ar gyfer cynhyrchion a geir drwy epleu bacteriol

8. Mae cynnyrch a geir drwy epleu bacteriol yn bodloni'r safon ofynnol o dan y rheoliad hwn os yw -

- (a) o ansawdd technegol da;
- (b) wedi ei ddynodi gan Rif PM/REF, Rhif CAS ac enw yng ngholofnau 1, 2 a 3 yn eu trefn o Atodiad IV; ac
- (c) yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau a'r manylebion a osodir yng ngholofn 4 o'r Atodiad hwnnw.

Required standard for non-migration of constituents of additives

7.-(1) Subject to paragraph (2), where a migration limit expressed in mg/kg is indicated in column 4 of Section A or B of Annex III in relation to any additive, a plastic material or article manufactured containing that additive meets the required standard under this regulation if it is not capable of transferring constituents of that additive to food with which the plastic material or article may come into contact in quantities exceeding the appropriate limit, and for the purposes of this paragraph the appropriate limit is -

- (a) the number of milligrams indicated in column 4 released per kilogram of food in the case of any plastic material or article other than one specified in sub-paragraph (b); and
- (b) one sixth of the number of milligrams expressed in column 4 per square decimetre of surface area of the plastic material or article if the plastic material or article comprises -
 - (i) an article which is a container or is comparable to a container or can be filled, having a capacity of less than 500 millilitres or more than 10 litres, or
 - (ii) sheet, film or other plastic material or article which cannot be filled or for which it is impracticable to estimate the relationship between the surface area of the material or article in question and the quantity of food in contact with that surface area.

(2) A plastic material or article manufactured containing an additive for which a migration limit in mg/kg is expressed in column 4 is not deemed to be capable of transferring constituents of that additive to food with which the plastic material or article may come into contact in quantities exceeding the appropriate limit in paragraph (1) if the only food with which that plastic material or article may come into contact is food to which regulation 9(3) applies.

Required standard for products obtained by bacterial fermentation

8. A product obtained by bacterial fermentation meets the required standard under this regulation if it is -

- (a) of good technical quality;
- (b) identified by PM/REF No., CAS No. and name in columns 1, 2 and 3 respectively of Annex IV; and
- (c) in compliance with the restrictions and specifications set out in column 4 of that Annex.

Y safonau gofynnol ar gyfer terfynau ymfudiad cyflawn

9.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae deunydd neu eitem plastig yn bodloni'r safon ofynnol o dan y rheoliad hwn os nad yw'n gallu trosglwyddo ei gyfansoddion i fwyd y gall ddod i gysylltiad ag ef mewn sympiau sy'n mynd dros ben y terfyn priodol a bennir ym mharagraff (2).

(2) (a) Yn achos unrhyw ddeunydd neu erthygl sy'n cynnwys -

- (i) erthygl sy'n gynhwysydd neu'n gymharol â chynhwysydd neu y gellir ei lenwi ac iddo gynhwysedd nad yw'n llai na 500 mililitr ac nad yw'n fwy na 10 litr,
- (ii) eitem y gellir ei lenwi a'i bod yn anymarferol yn ei achos i amcangyfrif arwynebedd yr wyneb mewn cysylltiad â bwyd, neu
- (iii) sy'n gap, yn gasged, yn gaead neu'n ddyfais gyffelyb ar gyfer selio,

y terfyn priodol yw terfyn ymfudiad cyflawn o 60 o filigramau o gyfansoddion yn cael eu rhyddhau am bob cilogram o fwyd.

(b) Yn achos unrhyw ddeunydd neu eitem plastig arall, y terfyn priodol yw terfyn ymfudiad cyflawn o 10 o filigramau ym mhob decimetr sgwâr o arwynebedd y deunydd neu'r eitem plastig.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn ni fernir bod deunydd neu eitem plastig yn methu â bodloni'r safon ofynnol o dan baragraff (1) os mai'r unig fwyd y gall y deunydd neu'r eitem ddod i gysylltiad ag ef yw bwyd-

- (a) sydd wedi ei bennu yn y tabl i Ran 4 o Atodlen 3; a
- (b) pan na fo "X" wedi ei gosod yn unman yn y grwp o golofnau dan y pennawd "Efelychwy'r i'w defnyddio" gyferbyn â'r bwyd hwnnw.

(4) Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn pan honnir nad yw deunydd neu erthygl plastig yn cydymffurfio â'r rheoliad hwn, mae'r amddiffyniadau sydd ar gael ym mharagraff 6(2) a 7(2) o Atodlen 2 ar gael fel a bennir yn y paragraffau hynny.

Y safon ofynnol i sicrhau nad oes ymfudiad aminau aromatig cynradd

10.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae deunydd neu eitem a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio isocyanadau neu liwyddion a baratowyd drwy diasoglypsu yn bodloni'r safon ofynnol o dan y rheoliad hwn os nad yw'n gallu trosglwyddo swmp canfyddadwy o aminau aromatig (a fynegir fel anilin), heb fod yn aminau aromatig cynradd a restrir yn y Gyfarwyddeb, i fwyd y gall y deunydd neu'r eitem plastig hwnnw ddod i gysylltiad ag ef.

Required standards relating to overall migration limits

9.-(1) Subject to paragraph (3), a plastic material or article meets the required standard under this regulation if it is not capable of transferring its constituents to food with which it may come into contact in quantities exceeding the appropriate limit specified in paragraph (2).

(2) (a) In the case of any plastic material or article comprising -

- (i) an article which is a container or comparable to a container or can be filled, with a capacity of not less than 500 millilitres and not more than 10 litres,
